# Y CABINET DYDD MAWRTH, 15 MEHEFIN 2021

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Griffith, Nia Jeffreys, Dilwyn Morgan, Ioan Thoamas, Catrin Wager, Cemlyn Williams a Dewi Roberts (Aelod Lleol).

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) a Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasnaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)
Eitem 7: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg) a Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Dwyfor / Meirionnydd)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiehruiad gan Cyng. Gareth Thomas.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 MAI 2021

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2021 fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2020/21

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2020/21 ac argymhellwyd i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu yn y Cyngor Llawn ar yr 8 Gorffennaf 2021.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod yn bleser ei gyflwyno. Pwysleisiwyd fod y ddogfen yn un clir, darllenadwy sy'n rhoi darlun clir o waith yr holl gyngor. Eglurwyd fod un rhan a'r ddechrau'r adroddiad yn rhoi disgrifiad o'r gwaith a wnaethpwyd ar ddechrau'r cyfnod clo pan fu i waith y Cyngor gael ei gyfyngu o ganlyniad i'r rheoliadau covid. Eglurwyd fod staff y Cyngor wedi ymateb yn ystwyth a hyblyg i gyfarch y sefyllfa ac wedi gweithio i greu ffordd newydd o weithio. Diolchwyd i'r holl staff am fod mor barod i addasu ac i ymateb mor gyflym ac effeithlon i'r cyfnod clo.

Nodwyd fod yr adroddiad yn amlygu blaenoriaethau'r Cyngor gan bwysleisio'r angen i barhau i drafod y maes twristiaeth gynaliadwy. Nodwyd y bydd yr Adran Addysg yn parhau i weithio i wella'r ddarpariaeth addysg o fewn y sir, gan nodi fod gwaith wedi ei wneud yn Ysgol Godrau'r Berwyn ac Ysgol y Garnedd a bod ysgol newydd ar ei ffordd yng Nghricieth.

Mynegwyd yn wyneb yr argyfwng tai fod y Cynllun Gweithredu Tai yn ei le. Nodwyd fod y cynllun hwn yn uchelgeisiol ac arloesol a bod ymrwymiad o £77miliwn o arian ar gyfer cyfnod y cynllun.

Esboniwyd fod rhai adrannau yn anweledig gan drigolion y sir ac wedi ei effeithio dros y blynyddoedd gan doriadau. Amlygwyd adran Gwarchod y Cyhoedd sydd wedi delio gyda nifer o newidiadau o ganlyniad i argyfwng Covid-19. Diolchwyd i staff am ymroi i'r drefn Profi, Olrhain a Diogelu sydd wedi amlygu gallu Llywodraeth Leol i wneud y gwaith heb wastraffu arian ar gwmnïau allanol.

Mynegwyd mai dyma Adroddiad Blynyddol olaf y tymor yma ac y bydd trefn newydd i'r dyfodol. Ychwanegwyd fod y drefn herio perfformiad mewnol o fewn y Cyngor yn ail gychwyn er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn edrych ar ei gwendidau ac yn gwella yn barhaus.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i staff yr adran Blant a Chefnogi Teuluoedd am barodrwydd a hyblygrwydd yn ystod y cyfnod. Diolchwyd i'r holl rieni maeth sydd wedi bod mor barod i lenwi'r bwlch. Ychwanegwyd fod yr adran yn ymwybodol o'u heriau wrth symud yn eu blaenau a bod y cynllun awtistiaeth am fod yn un o'r flaenoriaeth am eleni.
- Diolchwyd i staff yr adran Oedolion, Iechyd a Llesiant am ddyfalbarhau mewn blwyddyn anodd. Nodwyd fod eleni wedi amlygu cryfder y staff.

- Tynnwyd sylw at un cywiriad bychan i'w addasu, fod 8 blaenoriaeth gwella bellach nid 7.
- Cydnabuwyd y gwaith arbennig sydd wedi ei wneud yn yr ysgolion i ymateb i'r her o ddysgu o adref.
- Diolchwyd i staff yr adran gyllid a technoleg gwybodaeth am ei gwaith i gefnogi yr adrannau eraill.
- Diolchwyd i staff yr adran Economi am siarad gyda busnesau yn ystod yr holl gyfnod ac i ddyrannu grantiau cofid.

## 7. YSGOL ABERSOCH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Cemlyn Williams

**PENDERFYNIAD**

Bu i'r Cabinet, yn dilyn ystyried sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ynghyd â'r ymateb yr Adran Addysg i'r sylwadau hynny

i. Gymeradwyo cyhoeddi cynnig statudol i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022

ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai pwrpas yr adroddiad yw adrodd yn ôl yn dilyn cyfnod ymgynghori statudol ar yr opsiwn i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Mynegwyd nad oedd y penderfyniad i ddod a'r adroddiad i'r Cabinet wedi bod yn rhwydd ond fod yr adran yn gofyn am gymeradwyaeth i gyhoeddi cynnig statudol i gau Ysgol Abersoch yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Pwysleisiwyd ei bod yn anodd iawn cyflwyno'r adroddiad hwn, ond fod dyletswydd sicrhau addysg a phrofiadau ac amgylchedd gorau posib i blant. Mynegwyd fod ystyriaeth lawn wedi ei roi i'r holl opsiynau posib i'r ysgol. Diolchwyd i'r holl unigolion, disgyblion, athrawon a llywodraethwyr ar roi eu hamser i ymateb i'r ymgynghoriad statudol.

Mynegwyd fod yr angen wedi codi i edrych ar ddyfodol Ysgol Abersoch y dilyn gostyngiad yn nifer y disgyblion Nodwyd fod niferoedd Ysgol Abersoch wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf a bellach fod 76% o gapsiti'r ysgol yn wag gyda rhag amcanion am y blynyddoedd nesaf yn dangos fod y niferoedd am barhau yn isel.

Bu i'r Pennaeth Addysg nodi yn ôl yn Mai 2019 y bu i'r Cabinet gytuno i gefnogi cynnal trafodaeth ffurfiol gyda chorff llywodraethol yr Ysgol i drafod opsiynau

posib yn dilyn lleihad yn y nifer y disgyblion. Bu i 3 cyfarfod ei gynnal a oedd yn gyfle i egluro'r angen i drafod opsiynau, i gyflwyno a thrafod yr opsiynau cyn dod i benderfyniad ar yr opsiwn ffarfredig.

Yn ôl ym Medi 2020 nodwyd y bu i'r Cabinet ymgymryd â'r proses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Abersoch Awst 2021, gan gynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Bu i'r penderfyniad gan ei gadarnhau yn y Cabinet ar y 5ed o Dachwedd wedi i'r penderfyniad gael ei alw mewn i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Hydref.

Amlygodd y Pennaeth Addysg y prif heriau oedd yn wynebu'r ysgol a oedd yn cynnwys niferoedd disgyblion wedi gostwng ers 2016. Mynegwyd fod 8 disgybl yn yr ysgol yn llawn amser ar hyn o bryd gyda 2 ddisgybl yno rhan amser. Ychwanegwyd fod y rhagolygon yn nodi y bydd 10 disgybl yn 2021, a 12 yn 2022 a 2023. Esboniwyd fod data yn amlygu fod 21 o blant yn nalgylch Abersoch yn mynychu ysgolion arall a bod 3 disgybl o du hwnt i ddalgylch Aberoch yn mynychu'r ysgol. Mynegwyd fod niferoedd isod yn rhoi pwysau ychwanegol ar gyllidebau. Tynnwyd sylw at y ffaith fod yr ysgol yn derbyn arian ychwanegol o ganlyniad i niferoedd isel i sicrhau staff. Mynegwyd fod Ysgol Abersoch yn derbyn £50,000 ychwanegol ar ben eu cyllidebau a olygai fod cost y disgybl oddeutu £17,000 y plentyn o'i gymharu ag oddeutu £4,000 y plentyn yn sirol.

Nodwyd fod y Cabinet yn Rhagfyr 2019 wedi ymrwymo i Egwyddorion Addysg i Bwrpas sydd yn sail i weledigaeth yr adran i sicrhau cyfundrefn addysg. Mynegwyd yn ogystal fod ysgolion cynradd yn dilyn Strategaeth Addysg Gynradd a bod yr egwyddorion ar strategaeth wedi bod yn wreiddiol yn yr holl broses.

Bu i'r Swyddog Addysg amlygu'r opsiynau a gafodd ei ystyried a oedd yn cynnwys addasu'r ystod oedran i 3-9 oed neu 3-11oed. Mynegwyd y buasai manteision i wneud hyn ond nad oedd yn gynaliadwy i'r dyfodol.  Amlygwyd fod 3 math o ffedereiddio wedi eu cynnig fel opsiynau i sicrhau presenoldeb o fewn yr ardal ond pwysleisiwyd nad oedd hyn yn cyfarch yr her o niferoedd yn lleihau. Cyflwynwyd yr opsiwn o gau a darparu lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn bach a oedd yn cynnig cyfleoedd cyson i'r disgyblion ac addysg o'r ansawdd uchaf ynghyd a chysondeb o ran niferoedd o fewn dosbarthiadau. Ychwanegwyd fod y pellter daearyddol yn bellter teg ac y buasai gan rieni'r gallu i ddewis ysgol i'w plant.

Yn dilyn hyn bu i ymgynghoriad cyhoeddus gael ei gynnal rhwng y 12 Ionawr a 23 Chwefror. Bu i ddogfennau ymgynghorol gael ei anfon ar e-bost ynghyd a chopïau caled a bu i sesiynau galw mewn rhithiol gael eu cynnal. Derbyniwyd 154 ymateb. Mynegwyd fod mwyafrif o'r ymatebion yn gwrthwynebu gyda'r opsiwn i gau ac amlinellwyd y prif bwyntiau.

Mynegwyd fod nifer o ymatebion yn nodi anfodlonrwydd gyda chynnal yr ymgynghoriad o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19. Pwysleisiwyd o ran gofynion rheoliadau yn nodi nad oes gofyn cynnal cyfarfodydd cyhoeddi ac felly fod y drefn a ddilynwyd yn briodol. Amlygwyd fod pryderon wedi codi o ran amserlen ac nad oedd cau ar 31 Awst 2021 yn rhoi digon o amser i rieni benderfynu ar yr ysgol i anfon eu plant iddo, o ganlyniad i hyn mae'r Adran Addysg wedi gwthio'r dyddiad ymlaen i Ragfyr 2021. Tynnwyd sylw at y sylwadau nad oedd y Mudiad Meithrin

a'r Cylch Meithrin wedi cael cyfle i fod yn rhan o'r ymgynghoriad. Mynegwyd fod yr adran wedi sylwi nad oedd yr e-bost wedi eu hanfon atynt a bu i'r adran ymestyn y cyfnod ymateb i'r mudiad hyd Ebrill 21 ond ni dderbyniwyd unrhyw ymatebiad.

Nodwyd fod nifer o sylwadau wedi ei derbyn am yr opsiynau amgen. Tynnwyd sylw at y sylwad am oedi'r broses i roi cyfle i'r ysgol gynyddu'r nifer, mynegwyd nad oedd modd ymrwymo i oedi gan fod niferoedd wedi disgyn yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac nad oedd yn hyfyw i'r dyfodol. Wrth ymateb i'r ymatebiadau oedd yn holi pam nad oedd adolygiad dalgylch, esboniwyd nad yw adolygiad dalgylch yn rhan o'r strategaeth ac mai ymateb i heriau penodol un ysgol yw'r penderfyniad hwn.

Eglurwyd fod nifer o ymatebion yn nodi fod gormod i bwyslais ar niferoedd yn yr ysgol ac yn cwestiynu'r rhagamcanion. Eglurwyd nad oedd y rhagamcanion yn rhai gwyddonol ond fod yr adran yn credu y buasai'r niferoedd yn parhau yn isel dros y 5 mlynedd nesaf. Nodwyd yn ogystal y buasai safon yr addysgu yn disgyn drwy symud i ysgol arall, ond pwysleisiodd yr adran fod ymateb Estyn yn amlygu fod safon y ddwy ysgol yn debyg iawn ac felly na fuasai gwahaniaeth arwyddocaol i addysg y plant.

Tynnwyd sylw at ôl ddefnydd o adeilad yr ysgol yn dilyn cau, mynegwyd fod gan y cyngor Bolisi Ôl Ddefnyddio Ysgolion ac y bydd trafodaethau cyfreithiol yn cael ei chynnal i sicrhau na fydd ymrwymiadau addysg i'r adeilad.

Amlygwyd pryderon nad yw'r llwybr teithio i Ysgol Sarn Bach yn addas i blant gerdded i'r ysgol, ond nodwyd fod bws ysgol yn weithredol ar hyn o bryd ac y bydd lle i'r disgyblion ychwanegol ar y bws hwn. Eglurwyd fod ymatebion yn amlygu fod bywyd y pentref yn cael ei ddylanwadu gan yr ysgol. Nodwyd y bydd disgwyliad i Ysgol Sarn Bach drin Abersoch fel rhan o'i hardal gan sicrhau fod y gwaith agos gyda'r pentref' yn parhau. Ychwanegwyd fod nifer o ddisgyblion Abersoch yn mynychu Ysgol Sarn Bach fod cyswllt gyda'r pentref i'w gweld yn barod.

Mynegwyd fod pryderon amlwg wedi ei nodi yn yr ymgynghoriad ar Iechyd a Lles y disgyblion a phwysleisiwyd ei bod wedi bod yn gyfnod anodd ac y bydd y cyfnod y trosglwyddo yn anodd yn ogystal. Ond pwysleisiwyd bydd yr adran yn gweithio gyda'r ddwy ysgol i weithio gyda hwy ar y cyfnod pontio.

Derbyniwyd nifer o ymatebion yn amlygu effaith negyddol ar yr iaith a diwylliant gan fod yr ysgol yr adnodd pwysicaf o fewn y pentref' ar gyfer yr iaith. Pwysleisiwyd fod gwaith da yn cael ei wneud yn yr ysgol ond fod disgwyl i bob ysgol fod yn gweithio i hybu defnydd o'r iaith yn yr ysgol ac yn gymdeithasol ac o ganlyniad bydd disgwyliad i Ysgol Sarn Bach barhau gyda'r gwaith da sydd yn cael ei wneud.

Nodwyd fod ymatebion wedi holi be fydd yn digwydd i'r Cylch Meithrin a Ti a Fi os yr ysgol yn cau. Mynegwyd ei fod o ddwylo'r adran ond y gall gael ei ystyried ar gyfer ôl ddefnydd yr adeilad. Pwysleisiwyd ar y cyfan fod plant Ysgol Abersoch yn anhapus ac yn codi pryderon am y profiadau y gallent eu colli fel ymweliadau i'r traeth a'r Pendref a bod disgyblion Ysgol Sarn Bach yn cydymdeimlo ond yn

awyddus i groesawu'r disgyblion i'w hysgol.

Tynnodd y Swyddog Addysg at yr opsiynau amgen gan nodi eu bod wedi edrych ar Ysgol Aml Safle a dau fath o ffederasiwn ysgolion. Esboniwyd fod yr opsiynau wedi bod yn fodel all weithio os y pellter daearyddol yn sylweddol. Ond, mynegwyd gan nad oedd y pellter yn un helaeth eglurwyd nad oeddent yn ddatrysiad i'r dyfodol ac na fuasai yn ateb i'r heriau sydd yn wynebu Ysgol Abersoch.

Nododd yr Aelod Lleol ei fod yn siomedig iawn nad oedd modd i'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd ymuno a'r cyfarfod. Mynegwyd fod yr adroddiad yn helaeth a gofynnwyd pa mor annibynnol yw'r adolygiad gan ei fod yn cael ei arwain gan yr adran addysg. Pwysleisiwyd fod yr ymateb yn gryf yn erbyn y penderfyniad, a bod y gymuned yn unfrydol yn erbyn cau'r ysgol. Eglurodd y buasai ychwanegu un flwyddyn ysgol i gynnwys blwyddyn 3 yn gwneud llawer o wahaniaeth i Ysgol Abersoch a gofynnwyd pam nad oedd yr adran wedi cymryd unrhyw gamau yn gynt i ddatrys y broblem o gapasiti.

Ychwanegodd nad oedd unrhyw sylw wedi ei wneud i'r ymgyrch i gael tai i bobl leol o fewn y pentref, ac y buasai cau'r ysgol cyn y cynlluniau hyn yn gynamserol. Eglurwyd fod y Cylch Meithrin a Ti a Fi wedi llwyddo i dynnu plant i mewn ac nad oedd digon o amser wedi mynd heibio i weld pe bai yn gwneud gwahaniaeth i'r niferoedd. Eglurwyd fod disgyblion yr ysgol gyda pherthynas agos gyda'r pentref ac o'i gau buasai yn cau'r berthynas yma gyda'i chynefin. Ychwanegwyd fod nifer o deuluoedd wedi nodi eu bod yn awyddus i droi ei ail gartref i fod yn gartref llawn amser yn dilyn y cyfnod cofid ac felly buasai posibilrwydd y byd niferoedd yn codi. Gofynnodd i'r Cabinet i ohirio'r penderfyniad am flwyddyn i weld os bydd newid i'r niferoedd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i athrawon, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned am fod yn barod i ymateb i'r ymgynghoriad.
- Tynnwyd sylw at y broses sydd wedi ei dilyn ers 2019 a'i bod wedi bod yn dryloyw ac yn dilyn prosesau cywir. Eglurwyd y bydd effaith ar gymuned ond fod y plant yn barod yn symud i Ysgol Sarn Bach pan yn 8 oed ac felly fod cysylltiad yno yn barod. Mynegwyd mai safon addysg i blant Gwynedd yw'r flaenoriaeth.
- Mynegwyd fod y ffigwr o £17,000 y plentyn yn drawiadol i gymharu £4,000 dros y sir i gyd. Amlygwyd fod yr Asesiad Ardrawiad Ieithyddol wedi ei herio yn yr ymatebion a gofynnwyd am ymateb yr adran i hynny. Yn ogystal holwyd beth fydd yr adran yn ei wneud i sicrhau'r cyswllt gydag Ysgol Sarn Bach a'r pentref. Nododd y Swyddog Addysg fod sail y pryderon yn deillio o'r ffaith nad yw'r adran yn cymharu tebyg wrth debyg, ond pwysleisiwyd fod yr adran yn credu fod yr adroddiad yn gywir. O ran ymarferoldeb y gwaith i ddod ar ddwy gymuned at ei gilydd bydd angen edrych ar y cynllun yn y siarter iaith a gafael yn y strategaethau sydd wedi gweithio yn Abersoch a'i pharhau yn Ysgol Sarn Bach.
- Nodwyd fod ymatebion wedi amlygu teimladau cryf am yr ysgol a bod angen eu hystyried. Tynnwyd sylw at yr effaith ar y gymuned a'r iaith ond mynegwyd mai ansawdd addysg a llesiant plant sydd yn flaenoriaeth. Gofynnwyd am gadarnhad os bydd yr ysgol yn cau y bydd llesiant plant yn

cael sylw mewn Ysgol newydd. Yn ogystal o ran ddyfodol y safle, eglurwyd fod yr adnodd yn bwysig i'r gymuned a bod y gymuned a llais cryf dros ddyfodol y safle. O ran y symud, nododd y Swyddog Addysg fod angen cynllunio gofalus i sicrhau fod profiadau yn digwydd yn y ddwy ysgol cyn i'r ysgol gau i ddisgyblion ddod i adnabod eu hunain. Ychwanegwyd y buasai gwasanaethau arbenigol ar gael yn ogystal i sicrhau llesiant y plant.

- Nodwyd rôl ysgol o fewn cymuned fel hwb ac yn lle ble mae rhieni yn cymdeithasu a phlant yn magu gwreiddiau ac yn gweld gwerth ei gael yn ganol cymuned. Ond, nodwyd fod nifer uchel o blant yn mynychu ysgol tu allan i'r dalgylch yn drawiadol, a holwyd a yw ysgol un ystafell ddosbarth am roi datrysiad llawn i'r problemau sydd yn wraidd i broblemau'r ysgol. Gofynnwyd i'r adran gysidro llwybr saff i Ysgol Sarn Bach, er mwyn tynnu'r gymuned i mewn drwy gysylltu'r pentref a'r ysgol newydd. Eglurwyd y bydd y Cyngor yn drawsadrannol yn edrych i mewn i'r posibiliadau o greu llwybr cerdded.
- Diolchwyd i'r aelod lleol am fanteisio ar bob cyfle i fod yn rhan o'r drafodaeth ac i leisio barn dros y trigolion.

## 8. YMATEB I'R ADRODDIAD "AIL GARTREFI - DATBLYGU POLISIAU NEWYDD YNG NGHYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn.

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd ar ymateb y Cyngor i'r adroddiad "Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru" fel y nodir yn rhan 9 o'r adroddiad gan amlygu'n benodol yr angen i addasu argymhelliad rhif 7 – Llety Gwyliau Tymor Byr a Threthi Busnes.

Cytunodd yr Arweinydd i gyfleu'r ymateb yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru gan alw arnynt i'w fabwysiadau a gweithredu'r argymhellion mwyaf effeithiol ar fyrder er mwyn ymateb i'r argyfwng tai sy'n wynebu cymunedau Gwynedd.
.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod angen ymatebiad i'r adroddiad "Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru" gan y Dr Simon Brooks, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Coleg Cymraeg. Mynegwyd fod Dr Brooks wedi cysylltu â'r Cyngor a bod nifer o'r argymhellion wedi dod o adroddiad a gyflwynwyd gan yr Adran Amgylchedd i'r Cabinet yn ôl ym mis Rhagfyr.

Eglurwyd fod deuddeg argymhelliad yn yr adroddiad a bod angen i'r Cyngor ymateb i'r adroddiad. Amlygwyd mai dim ond un argymhelliad mae'r Cyngor yn anghytuno a hi sef argymhelliad 7 – Llety Gwyliau Tymor Byr a Threthi Busnes. Mynegwyd yr angen i bob annedd gael ei gyfrif fel annedd ac yn cael

ei orfodi i dalu treth Cyngor ac unrhyw bremiwm sydd yn cyd-fynd ar annedd hwn. Nodwyd fod yr adroddiad yn un clodwiw ac o bwys ac ategwyd yr awydd i yrru neges at y Llywodraeth at ymateb y Cyngor i’r adroddiad.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad wedi tynnu ar lawer o ffynonellau a'i bod yn holl bwysig i’r Cyngor ymateb gan fod problem ail gartrefi yng Nghywydd ar ei gwaethaf. Amlygwyd y camau mae’r Cyngor wedi ei wneud yn barod i daclo’r broblem a oedd yn cynnwys mabwysiadu Polisi Gosod Newydd fel bod y flaenoriaeth ar bobl leol, gwneud defnydd o godi Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi gan fuddsoddi’r arian ychwanegol mewn Cynllun Gweithredu Tai. Pwysleisiwyd fod y Cyngor wedi gwneud popeth o fewn eu gallu ar gyfer y sefyllfa ynghyd a chomisiynu gwaith penodol er mwyn edrych i’r broblem. Cefnogwyd adroddiad Dr Simon Brooks gan bwysleisio fod nifer o argymhellion a wnaethpwyd gan y Cyngor yn y gwaith comisiwn i’w gweld yn yr adroddiad.

Eglurwyd i wneud gwahaniaeth mwyaf mae angen canolbwyntio ar yr argymhellion sydd am wneud gwahaniaeth ac amlygwyd 3 argymhelliad. Y cyntaf oedd Argymhelliad 7, gan ei fod wedi ei amlygu fel un o brif broblemau’r trigolion sef fod ail gartrefi ddim yn talu treth Cyngor wrth symud i dreth fusnes bach. Pwysleisiwyd yr angen i rwystro hyn rhag digwydd fel eu bod yn cyfrannu i’r Cyngor ac efallai gyda’r premiwm yn rhwystro eraill rhag prynu ail gartref. Yr ail flaenoriaeth oedd sicrhau fod dosbarth derbyn penodol er mwyn newid cartref o fod yn annedd i fod yn ail gartref a drwy hyn fod angen cais cynllunio. A'r trydydd er mwyn cael y dystiolaeth ar gyfer y ceisiadau cynllunio od angen cynllun trwyddedu ar gyfer dai gwyliau felly bod modd cadw golwg ar niferoedd o fewn cymunedau, ac yna gwrthod ceisiadau cynllunio os niferoedd yn uchel mewn cymuned. Eglurwyd heb fabwysiadu’r argymhellion rhain ni fydd modd taclo’r broblem.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth

- Nodwyd fod y Cyngor mewn argyfwng tai, a bod y Cyngor yn ddyddiol yn edrych ar ôl trigolion Gwynedd. Pwysleisiwyd yn ystod y flwyddyn eithriadol ddiwethaf fod y Cyngor wedi parhau i edrych ar ôl trigolion a pharhau i berfformio yn arbennig o dda. Eglurwyd dros y ddwy flynedd diwethaf fod y Cyngor wedi gwneud pob dim o fewn ei gallu i ddatrys y broblem ond nad oes grym gan y Cyngor i ddatrys y problemau go iawn. Mynegwyd nad yw’r broblem hon yn broblem newydd a bod Llywodraeth San Steffan wedi bod yn ymwybodol ohoni ers y 1970au, ac er bod Tai wedi ei ddatganoli i Gymru dim ond yr adroddiad hwn sydd wedi ei wneud. Pwysleisiwyd fod yr atebion i gyd yn yr adroddiad ond fod angen bellach i'r Llywodraeth weithredu.
- Nodwyd fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud adroddiadau ugain mlynedd yn ôl ond heb weithredu ar yr argymhellion. Yn ôl ym mis Rhagfyr, mynegwyd fod yr adroddiad yn gweiddi ar Lywodraeth Cymru i weithredu. Eglurwyd fod yr adroddiad diweddaraf ganddynt yn gweiddi am weithredu.
- Pwysleisiwyd fod angen gweithredu gan fod pryderon am ble mae pobl am fyw heddiw, heb sôn am ble fydd plant y sir yn byw. Eglurwyd bob dydd fod achosion y yn amlygu'r argyfwng tai yn codi ar draws Gwynedd.

- Eglurwyd nad yw hon yn broblem newydd a chwestiynwyd pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhywbeth ynghynt. Codwyd fod gormod o argymhellion yn cael ei amlygu gan yr adroddiad a bod posibilrwydd i'r Llywodraeth ddewis un syml i'w weithredu, ac o ganlyniad ddim yn gwneud gwahaniaeth.
- Croesawyd yr adroddiad gan bwysleisio ei bod yn amser i adroddiadau ddod i ben ac i weithredu. Gofynnwyd i fudiadau gydweithio gyda Chyngor Gwynedd i roi'r neges i'r Llywodraeth yn cwyno am ei gilydd.
- Amlygwyd fod ail gartrefi bellach i'w gweld yn bob ward yn y sir a bod y broblem bellach yn ehangu o'r adroddiadau traddodiadol ac i ardaloedd difreintiedig.
- Pwysleisiwyd fod angen bod yn glir fod talu treth Cyngor yn angenrheidiol. Eglurwyd fod codi premiwm yn amlygu fod y Cyngor wedi ei wneud beth mae yn gallu.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.15 y.h.

**CADEIRYDD**